IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 21 RHAGFYR 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lancaster a/ac Williams |

## 45 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddaeth dim i law.

## 46 : CAIS AM ADOLYGIAD TRWYDDED EIDDO - PENGAM MOORS SOCIAL CLUB

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Heddlu De Cymru, cynrychiolwyd gan John Crowther a Claire Dewhurst |
| Trwyddedai: | Mr Brian Barton a Carly Ellaway |

Ar ddechrau'r achosion, dywedodd Ms Crowther ar ran yr Heddlu i'r Heddlu a'r Trwyddedai gytuno y byddai amodau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith, fel a ganlyn;

1. Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod i safon a gymeradwywyd gan Heddlu De Cymru. Bydd rhaid ei chynnal a'i chadw a'i gweithredu ar bob adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal fewnol ac allanol lle y mae gan y cyhoedd fynediad ato (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa. Caiff y delweddau eu storio am o leiaf 31 diwrnod a chânt eu rhoi i gynrychiolydd Heddlu De Cymru mewn fformat y gellir ei chwarae yn syth pan ofynnir amdanynt pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Bydd digon o aelodau o staff wedi'u hyfforddi i hwyluso'r gwaith o greu'r delweddau.

2. Bydd llyfr digwyddiadau ar gyfer y safle a bydd gan y Goruchwylydd Safle Dynodedig (GSD) am o leiaf 12 mis. Rhoddir y llyfr digwyddiadau i gynrychiolydd Heddlu De Cymru yn syth pan ofynnir amdano pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Caiff y canlynol eu cofnodi yn y llyfr digwyddiadau;
Pob trosedd y rhoddir gwybod i'r safle amdano
Unrhyw gŵyn o natur trwyddedu
Unrhyw ddigwyddiad o anhrefn.
Pan wrthodir gwerthu alcohol i rywun.
Pob ymweliad gan gynrychiolydd yr Awdurdod Cyfrifol neu'r gwasanaethau brys.
Unrhyw fethiant neu ddiffyg yn y system TCC.

3. Ar achlysuron pan fo nifer y bobl mewn digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw'n fwy na 50, lle bo alcohol ar gael iddynt, caiff o leiaf dau Oruchwylydd Drws sydd wedi'u cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (ADD) eu cyflogi. Byddant yn gweithio o leiaf 30 munud cyn i'r digwyddiad ddechrau. Ar ddiwedd unrhyw ddigwyddiad o'r fath, bydd staff ADD (yn gwisgo tabard gweledd uchel neu debyg)

yn ardal Seawall Road, sy'n gyfagos â'r safle, i gynorthwyo pan fo mynychwyr y digwyddiad yn gadael yr ardal am hyd at 30 munud.

4. Ar achlysuron pan fo digwyddiad bocsio ar y teledu'n c ael ei sgrinio er mwynhad pobl yn y safle, caiff o leiaf 2 Oruchwylydd Drws cofrestredig ADD eu cyflogi. Byddant yn gweithio o leiaf 30 munud cyn i'r digwyddiad ddechrau. Ar ddiwedd unrhyw ddigwyddiad o'r fath, bydd staff ADD (yn gwisgo tabard gwelededd uchel neu debyg) yn ardal Seawall Road, sy'n gyfagos â'r safle, i gynorthwyo pan fo mynychwyr y digwyddiad yn gadael yr ardal am hyd at 30 munud.

5. Pan fo Goruchwylwyr Drws cofrestredig ADD yn cael eu cyflogi, bydd o leiaf un ohonynt yn gwisgo dyfais fideo. Bydd y ddyfais yn gallu recordio data sain a delweddau fideo. Caiff y recordiadau eu storio am o leiaf 31 diwrnod a chânt eu rhoi i gynrychiolydd Heddlu De Cymru mewn fformat y gellir ei chwarae yn syth pan ofynnir amdanynt pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Bydd digon o aelodau o staff wedi'u hyfforddi i hwyluso'r gwaith o greu'r recordiadau.

6. Caiff cofrestr o Oruchwylwyr Drws cofrestredig ADD ei chadw yn y safle. Bydd y gofrestr yn dangos enw llawn a rhif cofrestru ADD pob goruchwylydd drws. A bydd yn datgan amserau dechrau a gorffen cyfnod gwaith pob Goruchwylydd Drws ADD, gyda chydnabyddiaeth wedi'i llofnodi. Bydd cofrestr ADD gan y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig am o leiaf 12 mis ac fe'i rhoddir i gynrychiolydd Heddlu De Cymru yn syth pan ofynnir amdani pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

7. Bydd y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig yn sicrhau y caiff system addas ar gyfer mesur nifer y bobl yn y safle (megis clicwyr cyfrifo) ei defnyddio gan Oruchwylwyr Drws ADD. Cofnodir nifer y bobl yn y safle bob awr yn llyfr cofnodi Goruchwylydd y Drws.

Crynhaodd Mr Crowther y digwyddiadau a nodwyd ym Mhapurau'r Is-bwyllgorau, trafodaethau canlynol gyda'r trwyddedai ac amodau y cytunwyd arnynt.

Gofynnodd yr aelodau am ddigwyddiadau eraill yn y safle a dywedwyd wrthynt nad yw'r safle yn achosi llawer o broblemau i'r Heddlu ac nid yw'n uchel ar eu radar, gan ychwanegu nad oes unrhyw ddigwyddiadau wedi bod ers hynny.

Gofynnodd yr aelodau a yw'r Heddlu'n hyderus y byddid cydymffurfio â'r amodau ychwanegol a dywedwyd wrthynt nad oes rheswm ganddynt dros amau hyn a bod bwriadau da gan Mr Barton i symud ymlaen.

Trafododd yr aelodau staff drws ADD ac a fyddai angen y rhain ar noson brysur gyda mwy na 50 o fynychwyr.  Dywedwyd wrth yr aelodau fod angen staff drws dim ond ar gyfer digwyddiadau wedi'u cynllunio.

Esboniodd Ms Ellaway mai digwyddiad nid i aelodau oedd y Digwyddiad Nos Galan Gaeaf a'r bwriad oedd annog pobl i ddod yn aelodau o'r clwb cymdeithasol. Dywedwyd wrth yr aelodau na fyddent yn trio digwyddiadau arall o'r fath.

Trafododd yr aelodau y ffotograffau yng ngwaith papur y paraffernala ar gyffuriau a gofynnon nhw a yw Mr Barton wedi dala unrhyw un yn defnyddio cyffuriau yn y safle.

Dywedodd Mr Barton iddo ddala tua 4 person yn y 10 mlynedd diwethaf a gwaharddwyd bob un ohonynt o'r clwb am 12 mis.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y dyn a achosodd y broblem yn y Parti Nos Galan Gaeaf wedi bod yn aelod a dywedwyd wrthynt yr oedd a'i fod bellach wedi'i wahardd.

PENDERFYNWYD – bod yr Is-bwyllgor yn cytuno i atodi'r amodau canlynol at y drwydded;

1. Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod i safon a gymeradwywyd gan Heddlu De Cymru. Bydd rhaid ei chynnal a'i chadw a'i gweithredu ar bob adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal fewnol ac allanol lle y mae gan y cyhoedd fynediad ato (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa. Caiff y delweddau eu storio am o leiaf 31 diwrnod a chânt eu rhoi i gynrychiolydd Heddlu De Cymru mewn fformat y gellir ei chwarae yn syth pan ofynnir amdanynt pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Bydd digon o aelodau o staff wedi'u hyfforddi i hwyluso'r gwaith o greu'r delweddau.

2. Bydd llyfr digwyddiadau ar gyfer y safle a bydd gan y Goruchwylydd Safle Dynodedig (GSD) am o leiaf 12 mis. Rhoddir y llyfr digwyddiadau i gynrychiolydd Heddlu De Cymru yn syth pan ofynnir amdano pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Caiff y canlynol eu cofnodi yn y llyfr digwyddiadau;
Pob trosedd y rhoddir gwybod i'r safle amdano
Unrhyw gŵyn o natur trwyddedu
Unrhyw ddigwyddiad o anhrefn.
Pan wrthodir gwerthu alcohol i rywun.
Pob ymweliad gan gynrychiolydd yr Awdurdod Cyfrifol neu'r gwasanaethau brys.
Unrhyw fethiant neu ddiffyg yn y system TCC.

3. Ar achlysuron pan fo nifer y bobl mewn digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw'n fwy na 50, lle bo alcohol ar gael iddynt, caiff o leiaf dau Oruchwylydd Drws sydd wedi'u cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (ADD) eu cyflogi. Byddant yn gweithio o leiaf 30 munud cyn i'r digwyddiad ddechrau. Ar ddiwedd unrhyw ddigwyddiad o'r fath, bydd staff ADD (yn gwisgo tabard gweledd uchel neu debyg) yn ardal Seawall Road, sy'n gyfagos â'r safle, i gynorthwyo pan fo mynychwyr y digwyddiad yn gadael yr ardal am hyd at 30 munud.

4. Ar achlysuron pan fo digwyddiad bocsio ar y teledu'n cael ei sgrinio er mwynhad pobl yn y safle, caiff o leiaf 2 Oruchwylydd Drws cofrestredig ADD eu cyflogi. Byddant yn gweithio o leiaf 30 munud cyn i'r digwyddiad ddechrau. Ar ddiwedd unrhyw ddigwyddiad o'r fath, bydd staff ADD (yn wisgo tabard gweledd uchel neu debyg) yn ardal Seawall Road, sy'n gyfagos â'r safle, i gynorthwyo pan fo mynychwyr y digwyddiad yn gadael yr ardal am hyd at 30 munud.

5. Pan fo Goruchwylwyr Drws cofrestredig ADD yn cael eu cyflogi, bydd o leiaf un ohonynt yn gwisgo dyfais fideo. Bydd y ddyfais yn gallu recordio data sain a delweddau fideo. Caiff y recordiadau eu storio am o leiaf 31 diwrnod a chânt eu rhoi i gynrychiolydd Heddlu De Cymru mewn fformat y gellir ei chwarae yn syth pan ofynnir amdanynt pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol

bosibl. Bydd digon o aelodau o staff wedi'u hyfforddi i hwyluso'r gwaith o greu'r recordiadau.

6. Caiff cofrestr o Oruchwylwyr Drws cofrestredig ADD ei chadw yn y safle. Bydd y gofrestr yn dangos enw llawn a rhif cofrestru ADD pob goruchwylydd drws. A bydd yn datgan amserau dechrau a gorffen cyfnod gwaith pob Goruchwylydd Drws ADD, gyda chydnabyddiaeth wedi'i llofnodi. Bydd cofrestr ADD gan y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig am o leiaf 12 mis ac fe'i rhoddir i gynrychiolydd Heddlu De Cymru yn syth pan ofynnir amdani pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

7. Bydd y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig yn sicrhau y caiff system addas ar gyfer mesur nifer y bobl yn y safle (megis clicwyr cyfrifo) ei defnyddio gan Oruchwylwyr Drws ADD. Cofnodir nifer y bobl yn y safle bob awr yn llyfr cofnodi Goruchwylydd y Drws.

47 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - THE GROAKER , HEOL Y DERI

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Mr Bray |
| | Claire Dewhurst a John Crowther, Swyddogion Trwyddedu |
| Awdurdodau Cyfrifol: | Heddlu De Cymru |

Cais:

Mae cais am Drwydded Safle wedi'i dderbyn gan Groaker Group Limited menw perthynas â 4A/B Heol y Deri, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6HF

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle

(ii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do)

Yr oriau agor a ganiateir canlynol:
Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 08:00 tan 23:30
Dydd Sul: 10:00 tan 22:00
Nos Galan: 08.00 tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr.

I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 08:00 tan 23:30
Dydd Sul: 10:00 tan 22:00
Nos Galan: 08.00 tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr.

(ii) Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):
Nos Galan: 23:00 tan 02:30

Dywedwyd wrth yr aelodau i'r Ymgeisydd gytuno i newid y cynllun ar gyfer yr ardal drwyddedig i leihau ei maint a chytunwyd ar yr amodau.  Derbyniwyd 1 gwrthwynebiad gan breswylydd.

Dywedodd yr ymgeisydd ei fod yn deall ei fod yn bentref bach ac mae'n newid i'r gymuned ond y byddai'n cymryd cyfrifoldeb , yn  cyfathrebu ac yn cael adborth gan gwsmeriaid gan ei fod am i'r busnes fod yn ased i'r gymuned nid yn aflwydd.

Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai lle i 53, seddi yn bennaf a byddai arwyddion yn gofyn i gwsmeriaid adael y safle yn dawel; bwyd tapas fyddai'r busnes yn bennaf gyda detholiad bach o ddiodydd.

Gofynnodd yr aelodau am y gymhareb seddi a sefyll a dywedwyd wrthynt fod y busnes wedi ymrwymo i nifer penodol o seddi ar unrhyw un adeg ac na fyddent yn symud byrddau.

Gofynnodd yr aelodau am fwy o wybodaeth am gefndir yr Ymgeisydd a dywedwyd wrthynt yr oedd yn is-lywydd cwmni rheol gyda mwy na 3000 o aelodau o staff. Mewn perthynas â'r busnes newydd, dywedwyd wrth yr aelodau fod tîm eisoes ar waith yn cynnwys rheolwr o'r Chapter a Chogydd o Park Hotel.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod y cynllun seddi'n dangos yr ardal drwyddedig a phe bai hyn yn cael ei newid yna byddai angen amrywiad.

Trafododd yr aelodau ymgysylltu a chymorth cymunedol a dywedwyd wrthynt fod 70 sylw cadarnhaol wedi'u cael ar y cais cynllunio ac mae tudalen gefnogol ar Facebook.  Credodd yr ymgeisydd y byddai'r safle yn ategu'r busnesau eraill yn yr ardal.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, bod yr Is-Bwyllgor yn CYMERADWYO'r cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

ARDAL DRWYDDEDADWY I GAEL EI NEWID YN UNOL Â'R DYLUNIAD DIWYGIEDIG (ATODEDIG).

NEWID YR ORIAU A GANIATEIR Y GWNAETHPWYD CAIS AMDANYNT AR GYFER MANWERTHU ALCOHOL I'W YFED AR Y SAFLE I:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn:    11:00 tan 23:00
Dydd Sul:    11:00 tan 21:30
Nos Galan:    11:00 tan 02:00

NEWID YR ORIAU A GANIATEIR Y GWNAETHPWYD CAIS AMDANYNT AR GYFER MANWERTHU ALCOHOL I'W YFED ODDI AR Y SAFLE I:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn:    11:00 tan 23:30
Dydd Sul:    11:00 tan 22:00
Nos Galan:    11:00 tan 02:30

AMODAU:

1. Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod i safon a gymeradwywyd gan Heddlu De Cymru. Caiff ei chynnal a'i chadw a'i gweithredu ar bob adeg y mae'r safle ar agor i'r cyhoedd. Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal y safle lle y mae gan y cyhoedd fynediad ati (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa ac unrhyw ardal allanol i gael ei defnyddio gan y cyhoedd. Caiff y delweddau eu storio am o leiaf 31 diwrnod a bydd arnynt ddyddiad ac amseroedd. Caiff y delweddau eu cyflwyno i swyddog yr heddlu mewn fformat y gellir ei chwarae yn syth pan ofynnir amdanynt pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib. Bydd digon o aelod o staff wedi'u hyfforddi i hwyluso'r uchod. Bydd arwyddion yn rhybuddio cwsmeriaid bod TCC yn cael ei ddefnyddio ar y safle.

2. Caiff llyfr digwyddiadau ei gadw ar y safle. Nodir unrhyw ddigwyddiad o drosedd neu anhrefn a welir gan aelod o staff neu unrhyw ddigwyddiad a adroddir gan gwsmeriaid yn y llyfr hwn. Caiff y wybodaeth ganlynol ei chofnodi mewn perthynas â phob digwyddiad:

a. Dyddiad ac amser y digwyddiad.
b. Enw'r person sy'n adrodd.
c. Enw'r partïon cysylltiedig (os yn hysbys) neu ddisgrifiad o'r partïon (gyda chymaint o fanylion â phosibl).
d. Natur y digwyddiad.
e. Unrhyw gamau a gymerwyd ar ôl hynny.
f. Ymweliadau gan weithwyr y Gwasanaeth Brys.

Bydd tudalennau'r llyfr wedi'u rhifo'n olynol. Caiff staff eu hyfforddi ar eu cyfrifoldeb i gwblhau adroddiad ar ddigwyddiad. Bydd modd i Heddlu De Cymru weld adroddiadau ar ddigwyddiad ar gais.

3. Caiff ffenestri a drysu eu cau ar bob adeg ar ôl 20:00 bob dydd, ac eithrio at ddibenion mynd i mewn a/neu adael y safle.

4. Ni chaiff unrhyw uchelseinyddion sain allanol eu defnyddio ar y safle.

5. Ni chaiff cerddoriaeth ei chwarae yn y safle ar ôl 23:00 bob dydd.

6. Bydd seddi, nifer digonol i 48 person eistedd wrth fyrddau ar unrhyw adeg.

7. Caiff diodydd alcoholig eu symud o'r safle oni bai eu bod mewn cynhwysyddion wedi'u selio.

8. Ni chaiff diodydd alcoholig eu hyfed y tu allan i flaen y safle.

9. Gwerthir a rhoddir alcohol rhwng 08:00 a 11:00, i'w yfed ar y safle, i bobl sy'n eistedd neu sy'n ei gael yn rhan o bryd o fwyd wrth fwrdd.

10. Caiff arwyddion eu harddangos i atgoffa cwsmeriaid o'r angen i adael y safle a'r ardal o'i gwmpas mewn modd trefnus er mwyn peidio â tharfu ar drigolion lleol a/neu fusnesau eraill.

11. Bydd yr holl aelodau o staff sy’n canolbwyntio ar y cwsmer yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â gwerthiannau cysylltiedig ag oedran, gwerthu i bobl feddw a gweithdrefnau herio oedran cyn cael eu galluogi i weithio yn y safle. Bydd y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig yn cadw cofnodion o hyfforddiant o’r fath am gyfnod o 12 mis o leiaf.

12. Pan fo’r safle ar agor ar gyfer gweithgaredd trwyddedadwy ar ôl 00:00, bydd Goruchwylwyr Drws ADD yn gweithio. Bydd o leiaf un Goruchwylydd Drws ar adegau o’r fath o 21:00 nes y bydd y safle yn cau.

13. Caiff cofrestr o Oruchwylwyr Drws ei chadw yn y safle. Bydd y gofrestr yn dangos enw llawn, cyfeiriad, cwmni a rhif cofrestru ADD pob Goruchwylydd drws, gyda chydnabyddiaeth wedi’i llofnodi o amserau dechrau a gorffen cyfnod gweithio bob Goruchwylydd drws. Cedwir y Gofrestr gan y GSD am o leiaf 12 mis a sicrheir ei bod ar gael i swyddog yr Heddlu neu gynrychiolydd awdurdod cyfrifol ar gais.

48 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - KINGS ROAD COURTYARD , KINGS ROAD

| | |
|---|---|
| Ymgeiswyr: | Caroline Munro<br>Keith Munro |
| Awdurdodau Cyfrifol: | Claire Dewhurst a John Crowther, Swyddogion Trwyddedu, Heddlu De Cymru |

Cais:

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Caroline Munro mewn perthynas Kings Road Yard Courtyard, 183A Kings Road, Pontcanna, Caerdydd, CF11 9DF.

Amodau cyfredol y Drwydded Safle:

1. Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:
   Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle.

2. Heblaw y dangosir fel arall, caiff yr adeilad fod ar agor i’r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac yn ystod unrhyw oriau o ganlyniad i’r amseriadau ansafonol:
   Dydd Sadwrn: 08:00 – 23:00
   Dydd Sul: 08:00 – 22:00

3. Caniateir i’r safle ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:
   Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle:
   Dydd Sadwrn: 10:00 – 14:00
   Dydd Sul: 10:00 – 16:00

Dyma gyflwyno’r cais amrywio canlynol:

1. Ymestyn yr oriau a ganiateir i werthu alcohol ar ddydd Sadwrn: 10:00 – 21:30.

Dywedodd Caroline Dewhurst wrth yr aelodau mai ar gyfer 10:00 – 22:30 oedd cais amrywio gwreiddiol ond roedd yr ymgeisydd wedi newid hyn i 21:30.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am y Courtyard, y busnes sy'n gweithredu yno a dangoswyd fideo byr iddynt ar ddigwyddiadau marchnad y ffermwyr sy'n cael eu cynnal yno.

Dywedwyd wrth yr aelodau y cafwyd gwrthwynebiad cychwynnol gan Tony Bowley o Heddlu De Cymru, ond mae amodau wedi'u cynnig i'r ymgeisydd ers hynny ac mae'r rhain wedi'u derbyn.  Roedd Heddlu De Cymru yn hapus y byddent yn gweithio'n dda i'r sefydliad wrth fynd ymlaen.

Crynhawyd y gwrthwynebiadau eraill a dderbyniwyd i'r Aelodau.

Dywedodd yr Ymgeisydd mai dim ond Cwrw o'r Bragdy ar gael i'w brynu ac roedd pobl am gael dewis megis Jin a Thonig neu Win.  Dywedwyd wrth yr Aelodau y cynhaliwyd marchnadoedd y ffermwyr unwaith y mis i ddechrau ond roedd pobl am iddynt gael eu cynnal yn fwy rheolaidd felly maent yn cael eu cynnal bob dydd Sadwrn.  Edrychwyd i mewn i awgrymiadau eraill gan y Gymuned megis marchnadoedd Rhad a Hen Ffasiwn a ffeiriau Planhigion.  Rhoddodd yr Ymgeisydd sicrwydd i'r Aelodau nad ydynt yn cystadlu â'r Bragdy na busnes lleol ond yn wir maent yn eu hybu a'u cefnogi, a, phan gaiff digwyddiad ei gynnal yn y Courtyard, mae gwerthiannau busnesau lleol yn cynyddu.  Roedd cynlluniau hefyd i'r gymuned ddefnyddio'r lle mewnol ar gyfer gweithgareddau megis Ioga Dojo a Pilates ac i'r Coleg Brenhinol Cerdd a Drama ei ddefnyddio.

Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn rhoi gwybod i gymdogion o flaen llaw am ddigwyddiadau ac yn ymateb i unrhyw gwynion y maent yn eu derbyn.

Trafododd yr aelodau'r drwydded a dywedwyd wrthynt fod gan y Bragdy drwydded ar wahân ac y byddai'r drwydded y mae'n gweithio yn unol â hi'n dibynnu ar y digwyddiad sy'n cael ei gynnal.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r drwydded yn cael ei amrywio yn unol â thrwydded y Bragdy.

PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, bod yr Is-Bwyllgor yn CYMERADWYO'r cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

Cytuno y byddai 1 digwyddiad y mis dros 6 mis y flwyddyn.

Bydd yr amod isod yn cymryd lle atodiad 2(4) yr amod cyfredol
Caiff system TCC ei gosod i safon fel y cymeradwywyd gan Heddlu De Cymru, i'w cynnal a'i defnyddio ar bob adeg y bydd y safle ar agor i'r cyhoedd.  Bydd y system yn cadw golwg ar bob ardal fewnol ac allanol lle y mae gan y cyhoedd fynediad ati (ac eithrio tai bach) gan gynnwys pob mynedfa ac allanfa. Caiff y delweddau eu cadw am o leiaf 31 diwrnod a chânt eu rhoi i gyflogai'r Heddlu mewn fformat y gellir ei chwarae yn syth pan ofynnir amdanynt pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Bydd digon o aelod o staff wedi'u hyfforddi i hwyluso'r uchod.

Bydd yr amod isod yn cymryd lle atodiad 2(5) yr amod cyfredol

Bydd y GSD neu Ddeiliad Trwydded Personol ar y safle ar bob adeg y caiff gweithgaredd trwyddedadwy ei gynnal.

Caiff yr amodau canlynol eu rhifo fel y dangosir a chânt eu hychwanegu at amodau'r drwydded safle.
6. Ni chaiff unrhyw gerddoriaeth fyw wedi'i mwyhau ei pherfformio y tu allan i'r safle.

7. Bydd o leiaf 2 oruchwylydd drws cofrestredig yr ADD yn gweithio yn y safle pan fo mwy na 90 o gwsmeriaid a phan fo gweithgaredd trwyddedadwy yn cael ei gynnal. Ar achlysuron o'r fath, caiff Goruchwylwyr Drws ADD eu cyflogi o 18:00 nes y bydd y safle yn cau. Byddant yn parhau i weithio am 30 munud ar ôl i'r safle cau i'r cyhoeddi, i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael yr ardal yn ddiogel.

8. Caiff cofrestr o Oruchwylwyr Drws cofrestredig ADD ei chadw yn y safle. Bydd y gofrestr yn dangos enw llawn a rhif cofrestru ADD pob goruchwylydd drws. A bydd yn datgan amserau dechrau a gorffen cyfnod gweithio pob Goruchwylydd Drws ADD, gyda chydnabyddiaeth wedi'i llofnodi. Bydd cofrestr ADD gan y Goruchwylydd Safleoedd Dynodedig am o leiaf 12 mis ac fe'i rhoddir i gynrychiolydd Heddlu De Cymru yn syth pan ofynnir amdani pan fo'r safle ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

9. Ni chaniateir i gwsmeriaid barhau i yfed alcohol mwy na 30 munud ar ôl diwedd gweithgaredd trwyddedadwy.

**Hefyd caiff oriau a ganiateir eu newid:**
Manwerthu alcohol i'w yfed ar ac oddi ar y safle
Dydd Sadwrn 10:00 - 21:30
Dydd Sul 10:00 -16:00

49 : MATERION BRYS (OS O GWBL)

Ni ddaeth dim i law.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 am